OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1144 (Cy.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 14 Mai 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymrus - - 17 Mai 2013*

*Yn dod i rym - - 8 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau yn adrannau 89B(5) a 138A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Gorffennaf 2013.

(3) Mae rheoliad 3 yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniad a wneir gan awdurdod derbyn(**2**) ysgol uwchradd a gynhelir i gynnig neu i wrthod lle i blentyn yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/2016 a'r blynyddoedd academaidd ar ôl hynny.

(4) Mae rheoliad 4 yn gymwys mewn perthynas â phenderfyniad a wneir gan awdurdod derbyn ysgol gynradd a gynhelir i gynnig neu i wrthod lle i blentyn yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/2019 a'r blynyddoedd academaidd ar ôl hynny.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn dderbyn" ("*admission year*") mewn perthynas â derbyn disgyblion i grŵp oedran perthnasol(**3**) mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd benodol yw'r flwyddyn academaidd honno;

(**1**) 1998 p.31. Mewnosodwyd adran 89B gan adran 48 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25); adran 169 ac Atodlen 1, paragraff 53 a 59 ac O.S. 2010/1158. Mae adran 90ZA yn darparu, yn adrannau 89 i 90 o DSFfY 1998, mai ystyr "prescribed" yw wedi ei ragnodi gan Weinidogion Cymru ac ystyr "regulations" yw rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mewnosodwyd yr adran hon gan baragraff 63 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Mewnosodwyd adran 138A gan baragraff 71 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008.

(**2**) Caiff "admission authority" ei ddiffinio yn adran 88(1) o DSFfY 1998.

(**3**) *Gweler* adran 142(1) o DSFfY 1998 (p.31) i gael y diffiniad o "relevant age group".

ystyr "blwyddyn gynnig" ("*offer year*") yw'r flwyddyn academaidd sydd yn union o flaen y flwyddyn dderbyn;

ystyr "Cod Derbyniadau Ysgol" ("*School Admissions Code*") yw unrhyw god ar gyfer derbyniadau ysgol o dan adran 84(**4**) o DSFfY 1998;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wˆyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**5**);

ystyr "DSFfY 1998" ("*the SSFA 1998*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "dyddiad cynnig" ("*offer date*") yw'r dyddiad a ragnodir gan reoliadau 3 a 4 pan fydd rhieni yn cael eu hysbysu am y lle a neilltuwyd i'w plentyn mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd;

ystyr "prosbectws cyfansawdd" ("*composite prospectus*") yw'r prosbectws cyfansawdd y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei gyhoeddi o dan reoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**6**) sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau hynny ac yn y Cod Derbyniadau Ysgol(**7**).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cais wedi ei wneud yn ystod cylch derbyn arferol—

(a) os yw'n gais i blentyn gael ei dderbyn i grwˆp oedran perthnasol; a

(b) os nad yw'n gais hwyr nac yn gais a wneir yn ystod y flwyddyn.

(3) At ddiben y Rheoliadau hyn mae cais yn gais hwyr—

(a) os yw'n gais i blentyn gael ei dderbyn i grwˆp oedran perthnasol;

(b) os cyflwynir y cais cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn dderbyn;

(c) os cyflwynir y cais ar ôl y dyddiad a nodir yn y prosbectws cyfansawdd ar gyfer cael ceisiadau i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir; a

(d) os nad yw penderfyniad sy'n ymwneud â'r cais yn cael ei wneud gan awdurdod derbyn ar neu cyn y dyddiad cynnig.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cais yn gais a wneir yn ystod y flwyddyn—

(a) os yw'n gais i blentyn gael ei dderbyn i grwˆp oedran perthnasol a'i fod wedi ei gyflwyno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn dderbyn neu ar ôl hynny; neu

(b) os yw'n gais i blentyn gael ei dderbyn i grwˆp oedran ac eithrio grwˆ p oedran perthnasol.

### Y diwrnod y mae'r penderfyniadau mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion uwchradd i gael eu cyfleu i rieni

**3.**—(1) Y diwrnod a ragnodir yn y flwyddyn gynnig pan gaiff y penderfyniad a wneir gan awdurdod derbyn i gynnig neu i wrthod lle i blentyn mewn ysgol uwchradd ei gyfleu i'r rhiant yw 1 Mawrth.

(2) Mewn unrhyw flwyddyn pan nad yw 1 Mawrth yn ddiwrnod gwaith y diwrnod a ragnodir yw'r diwrnod gwaith nesaf.

(3) Dim ond mewn perthynas â phenderfyniad a wneir ynghylch cais a wneir yn ystod cylch derbyn arferol y mae paragraff (1) yn gymwys.

(**4**) Diwygiwyd adran 84 gan adran 40 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) a Rhan 6 o Atodlen 18 iddi.
(**5**) 1971 p.80.
(**6**) 2011/1944 (Cy.122).
(**7**) Mae'r prosbectws cyfansawdd yn nodi'r trefniadau derbyn ar gyfer ardal awdurdod lleol, gan gynnwys y dyddiad ar gyfer cael ceisiadau derbyn.

**Y diwrnod y mae'r penderfyniadau mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd i gael eu cyfleu i rieni**

**4.**—(1) Y diwrnod a ragnodir yn y flwyddyn gynnig pan gaiff y penderfyniad a wneir gan awdurdod derbyn i gynnig neu i wrthod lle i blentyn mewn ysgol gynradd ei gyfleu i'r rhiant yw 16 Ebrill.

(2) Mewn unrhyw flwyddyn pan nad yw 16 Ebrill yn ddiwrnod gwaith y diwrnod a ragnodir yw'r diwrnod gwaith nesaf.

(3) Dim ond mewn perthynas â phenderfyniad a wneir ynghylch cais a wneir yn ystod cylch derbyn arferol y mae paragraff (1) yn gymwys.

*Leighton Andr*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 89B a 138A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2013 ac maent yn gymwys mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion uwchradd ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/2016 ac mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/2019 a'r blynyddoedd academaidd ar ôl hynny (rheoliad 1).

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi 1 Mawrth (neu'r diwrnod gwaith nesaf) fel y dyddiad y mae penderfyniadau mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion uwchradd i gael eu cyfleu i rieni.

Mae rheoliad 4 yn rhagnodi 16 Ebrill (neu'r diwrnod gwaith nesaf) fel y dyddiad y mae penderfyniadau mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd i gael eu cyfleu i rieni.

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n cael effaith arwyddocaol ar gostau busnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.